Mynd i'r afael â hiliaeth
Cynhadledd i athrawon dan hyfforddiant yn llwyddiant mawr.

Technoleg i hanner miliwn
Mynediad am ddim i MS Office, Minecraft a Teams.

Gofalu am eich ysgyfaint
Canllawiau llygredd aer i ysgolion.

addysgu yng nghymru

Rhifyn 64
Tymor yr haf 2020

undeb addysg cenedlaethol cymru

'Safodd pawb gyda'i gilydd'

ROEDD cyfnod cau'r ysgolion oherwydd argyfwng y coronafeirws yn adeg a roddodd weithwyr addysg proffesiynol dan gryn straen.

Máiréad Canavan, aelod Gweithrediaeth yr NEU yng Nghymru, yng nghynhadledd 2019 LLUN gan Carmen Valino

Pan gyhoeddodd y Llywodraeth y byddai ysgolion yn cau'n rhannol, cyhoeddodd yr NEU gyngor cadarn am gwestiynau nad oedd wedi'u hateb.

Mynnodd un pennaeth ysgol gynradd, er enghraifft, fod disgwyl i'r staff i gyd ddod i'r ysgol bob diwrnod, gan 'gadw pellter cymdeithasol' wrth beintio murluniau a diweddaru arddangosfeydd. Cafodd y staff eu bygwth â cholli cyflog pe na baen nhw'n bresennol.

Roedd aelodau'r NEU yn benderfynol o ddilyn cyngor eu hundeb. Roedd cyngor Máiréad Canavan, aelod Gweithrediaeth yr NEU yng Nghymru, yn glir: dim ond y staff hynny a oedd ar rota i ofalu am blant gweithwyr allweddol a ddylai fod yn yr ysgol; a dylai staff yn y categori agored i niwed (neu staff sy'n gofalu am rywun neu sy'n byw â rhywun yn y categori hwnnw) weithio o gartref.

Dywedodd Megan, cynrychiolydd yr ysgol (nid dyna'i henw iawn), wrth Addysgu: "Cytunodd yr holl aelodau i sefyll gyda'i gilydd a dilyn cyngor yr NEU. Roedd gan yr aelodau ddigon o hyder i fod yn gadarn ac i ddilyn cyngor yr NEU, oherwydd roedd hyn yn rhywbeth roedd pawb yn teimlo'n gryf yn ei gylch - yn fater o fywyd a marwolaeth - ac roedd cefnogaeth ddi-ildio'r undeb yn amlwg."

Dywedodd Máiréad wrth Addysgu: "Fe atgoffais i'r pennaeth fod ysgolion yn gyfrifol am les eu staff ac yn atebol am esgeuluster os bydd aelodau o staff yn mynd yn sâl neu'n marw o dan amgylchiadau y gellid eu lliniaru."

Ildiodd y pennaeth, gan anfon e-bost at yr holl staff ar nos Sul i ddweud wrthyn nhw am ddod i'r ysgol, ond dim ond i gloi cyfarpar electronig yn ddiogel. Eto i gyd, doedd dim gair am aelodau sy'n agored i niwed.

Meddai Megan: "Penderfynodd aelodau'r NEU a oedd yn agored i niwed i sefyll gyda'i gilydd, ac aethon nhw ddim i'r ysgol y bore Llun hwnnw."

Yna trafododd yr NEU â'r awdurdod lleol i anfon e-bost at ei holl staff - a hwnnw fwy neu lai'n dilyn cyngor yr undeb "air am air" ynghylch pwy ddylai fod yn gweithio o gartref.

"Roedd hyn yn gwbl groes i'r hyn roedd ein pennaeth ei eisiau," meddai Megan.

"Roedd hi wedi bygwth peidio â'n talu, gan fynnu bod yn rhaid i'r holl staff ddod i'r ysgol. O ganlyniad, roedd llawer o'r staff yn pryderu'n arw iawn. Wnân nhw ddim anghofio sut y cawson nhw'u trin.

"Y peth cadarnhaol yw ein bod ni'n grŵp undeb mwy a chryfach nag o'r blaen."

Ychwanegodd Máiréad: "Mae hyn wedi grymuso ein haelodau - maen nhw'n gwybod y gallan nhw wrthod gorchmynion, drwy ddilyn cyngor yr NEU, ac y bydd yr undeb yn gefn iddyn nhw yn hynny o beth."

■ I gael cyngor diweddaraf yr undeb, ewch i **neu.org.uk/coronavirus**

Cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prydau ysgol am ddim dros y Pasg

CADARNHAODD Llywodraeth Cymru y byddai prydau ysgol am ddim yn dal i fod ar gael dros wyliau'r Pasg oherwydd argyfwng y coronafeirws. Roedd yr NEU wedi bod yn galw am hyn yn San Steffan a Chaerdydd, a chroesawodd y cyhoeddiad, a ddaeth gydag addewid o £7 miliwn o gyllid.

Dywedodd David Evans, ysgrifennydd NEU Cymru: "Bydd ein haelodau'n falch o glywed bod Llywodraeth Cymru yn meddwl am y rheini mewn angen. Mae angen i deuluoedd allu dewis yn ddoeth wrth brynu eu prydau bwyd, a ddylai dim byd gyfyngu arnyn nhw o ran pa siopau i'w defnyddio. Mae hyn yn bwysig iawn, yn enwedig ar hyn o bryd, gyda chyfyngiadau ar siopa i bawb."

Cynhadledd myfyrwyr-athrawon SRtRC yn llwyddiant mawr

BU dros 300 o athrawon dan hyfforddiant sydd ar eu blwyddyn olaf yn trafod materion sy'n ymwneud â hiliaeth mewn cynhadledd a drefnwyd gan yr elusen Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth (Show Racism the Red Card – SRtRC).

Yn dilyn llwyddiant blynyddoedd blaenorol, ac â chymorth ariannol gan NEU Cymru, cynhaliwyd cynadleddau i fyfyrwyr yn nwy o'r chwe phrifysgol sy'n hyfforddi athrawon yng Nghymru – Prifysgol De Cymru (Casnewydd) a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Abertawe). Roedd disgwyl cynnal cynadleddau ym mhrifysgolion Aberystwyth a Bangor ym mis Mehefin.

Dysgodd myfyrwyr ar gyrsiau BA (SAC), y Rhaglen Athrawon Graddedig a TAR sut i ddelio â hiliaeth a sut i ddysgu disgyblion pam fod hiliaeth mor niweidiol yn ystod gwersi ABCh. Trafodwyd y derminoleg gywir i'w defnyddio, cafwyd gweithdai am ragfarn ddiarwybod, a dysgwyd sut i ddefnyddio adnoddau SRtRC gyda disgyblion.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **theredcardwales.org**

RHODDODD miloedd o ddisgyblion cynradd ac uwchradd gynnig ar gystadleuaeth ysgolion SRtRC yng Nghymru eleni, gyda nawdd yr NEU. Teitl y categori arbennig eleni oedd 'Hiliaeth yn y gêm brydferth', a hynny'n annog disgyblion i edrych ar hiliaeth yn y byd pêl-droed, mewn categorïau o ddylunio dillad i ysgrifennu creadigol.

(Yn y llun uchod) Yr ymgais fuddugol i flynyddoedd 9+ gan Shannon Locke o Ysgol Uwchradd Caergybi. Y prif enillydd oedd Lenka Mbaye o Ysgol Gynradd Gymunedol Parc Borras yn Wrecsam, gyda'i cherdd yn cael clod rhyfeddol gan y beirniaid. Ewch i **bit.ly/33eg9bm** i weld yr holl gynigion buddugol.

'Mae adeiladau'n dadfeilio, does dim byd mwy i'w gwtogi'

Aelodau'r undeb ar y llinell biced yn Ysgol Gyfun Caerllion yng Nghasnewydd

MAE cyfres o streiciau oherwydd diswyddiadau wedi ysgwyd ysgol uwchradd yn sir Casnewydd.

Yn Ysgol Gyfun Caerllion, daeth aelodau'r NEU ac aelodau'r NASUWT ynghyd i gau'r ysgol ar 27 Chwefror. Dyma'r trydydd diwrnod o weithredu mewn protest yn erbyn ailstrwythuro a fydd yn arwain at gwtogi nifer y penaethiaid adran yn sylweddol.

Máiréad Canavan yw ysgrifennydd cangen Bro Morgannwg. Dywedodd hi wrth Addysgu fod yn rhaid i'r awdurdod lleol ysgwyddo cyfrifoldeb dros y toriadau ariannol anghymesur yng Nghaerllion.

"Mae'r aelodau'n gryf iawn ac yn ddi-ildio," meddai Máiréad. "Does dim byd mwy i'w gwtogi yn yr ysgol - mae'r adeiladau'n dadfeilio. Mae hwn yn achos dyrys iawn, ac mae'r aelodau'n gwybod bod angen gwneud rhywbeth.

"Mae'r undeb yn gwbl gefnogol i'r aelodau yng Nghaerllion, ac rydym yn benderfynol o'u cefnogi i barhau â'r streicio tan y cawn ateb sy'n foddhaol i bawb, a hynny er budd y staff a'r plant.

"Mae undod â'n chwaer undeb yn bwysig iawn yn yr anghydfod hwn. Mae'r aelodau'n amlwg yn credu mai mewn undeb mae nerth, ac mae criwiau mawr wedi bod ar y llinell biced bob diwrnod."

£5,126 yw'r cyllid cyfartalog i bob disgybl yng Nghaerdydd, ond yng Nghasnewydd mae'r ffigur hwnnw'n £4,581. Mae'r toriadau'n fygythiad i faint dosbarthiadau ym mlynyddoedd 7, 8 a 9 ac nid oes sicrwydd o gael dosbarthiadau anghenion dysgu ychwanegol ar wahân yn yr ysgol, sydd eisoes yn yr 18 y cant isaf o ysgolion o ran cymarebau disgyblion-staff.

■ Cafodd gweithredu pellach ar 10, 11 a 12 Mawrth ei ohirio ar ôl i aelodau'r undeb yn yr ysgol gytuno i gynnal trafodaethau ystyrlon cyn gynted â phosibl. Gobeithio y bydd modd datrys y sefyllfa heb roi pobl ifanc nac aelodau'r NEU o dan anfantais.

Dim dileu swyddi yn y flwyddyn academaidd hon

MAE Kirsty Williams, Gweinidog Addysg Cymru, wedi cytuno â'r NEU y dylai pob ysgol ac awdurdod lleol roi stop ar weithdrefnau dileu swyddi yn y flwyddyn academaidd hon.

Cytunwyd ar hyn ar lafar gyda David Evans, Ysgrifennydd NEU Cymru Wales, yn ystod cyfarfod drwy gynhadledd fideo. Mae David wedi bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd drwy gynhadledd fideo â swyddogion Llywodraeth Cymru ers iddyn nhw benderfynu cau pob ysgol oherwydd argyfwng Covid-19.

Mae'r undeb wedi bod yn trafod pynciau pwysig amrywiol, gan gynnwys toriadau i swyddi. Er bod nifer o ysgolion ac awdurdodau lleol wedi bod yn iawn i ohirio'u prosesau dileu swyddi, sydd fel arfer yn gorfod cael eu cwblhau cyn diwedd mis Mai, mae rhai yn parhau â'r broses.

■ Byddwn yn diweddaru'r holl aelodau cyn gynted ac y cawn y cytundeb hwn yn ysgrifenedig.

Cymru'n rhoi mynediad am ddim i bobl ifanc i MS Office

BYDD modd i hanner miliwn o bobl ifanc wella'u sgiliau digidol drwy blatfform dysgu digidol Hwb (hwb.gov.wales), sydd am ddim i'r holl ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu cytundeb trwyddedu cenedlaethol i bob ysgol a gynhelir, gan roi mynediad i raglenni sy'n cynnwys Word, Excel a PowerPoint, gyda'r nod o wella'r defnydd o dechnoleg ymhlith disgyblion a lleihau costau i deuluoedd a phenaethiaid.

Bydd tua 467,000 o bobl ifanc sydd yn yr ysgol yn elwa o hyn, gyda'r holl athrawon a myfyrwyr yn gallu lawrlwytho a gosod y fersiwn ddiweddaraf o Office 365 ProPlus ar hyd at 15 o ddyfeisiau personol.

Mae'r cytundeb hefyd yn rhoi mynediad i athrawon a myfyrwyr i'r canlynol:

- **Minecraft: Education Edition** i helpu ysgolion ledled y wlad i ddefnyddio'r gêm adeiladu blociau boblogaidd i addysgu pynciau fel gwyddoniaeth, hanes a chodio.

Mae rhagor o wybodaeth am sesiynau hyfforddi Minecraft ar gael yn **hwb.gov.wales**

- **Microsoft Teams**, sy'n dod â sgyrsiau, cynnwys, aseiniadau ac apiau ynghyd mewn un lle i greu profiadau ystafell ddosbarth ar y cyd.

Mae modd creu timau dosbarth ar Microsoft Teams gydag un clic drwy Hwb. Gall athrawon greu tîm dosbarth yn awtomatig gyda'u myfyrwyr, gan roi profiad ystafell ddosbarth diogel.

Y Llywodraeth yn datgelu manylion cwricwlwm 2022

AR 28 Ionawr cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion y cwricwlwm a'r trefniadau asesu newydd.

Cwta ddwy flynedd fydd gan aelodau NEU Cymru i gynllunio ar gyfer addysgu'r cwricwlwm newydd am y tro cyntaf ym mis Medi 2022.

Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r cwricwlwm wedi'u croesawu, ond mae'n allweddol bellach fod gan weithwyr addysg proffesiynol yr amser a'r gofod i gnoi cil dros y dogfennau newydd hyn a chynllunio sut y gallant wneud y cwricwlwm yn addas i ddysgwyr yn eu hysgol hwy.

Mae'n hanfodol hefyd bod Llywodraeth Cymru'n ystyried yr effaith ar les gweithwyr addysg proffesiynol. Mae angen cynnal asesiad trylwyr o effaith llwyth gwaith sy'n deillio o'r cwricwlwm newydd, a bydd NEU Cymru yn gofyn i Lywodraeth Cymru gynnal un o'r rhain.

> **"Mae angen cynnal asesiad trylwyr o effaith llwyth gwaith."**

Mae'r Llywodraeth wedi dweud wrth yr undeb ei bod yn bwriadu cynnal arolwg ymhlith gweithwyr addysg proffesiynol. Mae NEU Cymru yn galw am gynnwys cwestiynau am lwyth gwaith a'r cwricwlwm newydd yn yr arolwg hwnnw, ac am sicrwydd y bydd y Llywodraeth yn helpu i liniaru effaith y broses bontio. Mae'r undeb yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru ar gynnwys yr arolwg.

Gellir gweld y cwricwlwm newydd yn **hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/**

Beth sy'n digwydd nesaf?

Medi 2021 – ysgolion i baratoi at addysgu'r cwricwlwm.
Medi 2022 – ysgolion i ddefnyddio'r cwricwlwm newydd (meithrin i flwyddyn 7).
2023 ymlaen – cyflwyno'r cwricwlwm newydd i flynyddoedd 8 i 11 rhwng 2023 a 2026.

Yma i helpu

FEL yr undeb addysg mwyaf, gall NEU Cymru roi gwasanaeth heb ei ail i'w aelodau. Mae ein tîm proffesiynol yma i ddefnyddio'u harbenigedd er mwyn helpu ein rhwydwaith o gynrychiolwyr gweithle ac ysgrifenyddion rhanbarthau a changhennau.

Os oes gennych chi broblem yn y gwaith neu i gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau i aelodau, cysylltwch â'r canlynol:

- cynrychiolydd eich gweithle;
- ysgrifennydd eich cangen;
- AdviceLine;
- Swyddfa NEU Cymru.

NEU Cymru

Ty Sinnott, 18 Neptune Court, Vanguard Way, Caerdydd CF24 5PJ

Ffôn: 029 2049 1818

E-bost: cymru.wales@neu.org.uk

Ysgrifennydd Cymru: David Evans

Uwch Swyddogion Cymru: Gareth Lloyd, Debbie Scott

Uwch Swyddog Polisi Cymru: Mary van den Heuvel

Trefnydd y Gogledd: Cai Jones

Trefnydd y De: Robert Goddard

Cyfreithiwr Cymru: Angharad Booker

Aelodau Gweithredol: Neil Foden, Máiréad Canavan, Lesley Tipping

Prif Swyddfa

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol, Hamilton House, Mabledon Place, Llundain WC1H 9BD

Ffôn: 020 7388 6191

Gwefan: neu.org.uk

Llywydd: Amanda Martin

Cyd-ysgrifenyddion Cyffredinol: Mary Bousted a Kevin Courtney

Cyfieithiad gan Rhys Iorwerth Cyf **rhysiorwerth@hotmail.com**

Canllawiau i ddiogelu plant rhag llygredd aer

MAE'R British Lung Foundation a'r NEU wedi creu canllawiau i helpu staff ysgolion i fynd i'r afael â llygredd aer.

Maent am dynnu sylw at y problemau iechyd y mae llygredd aer yn eu hachosi a'u gwaethygu, yn enwedig i ysgyfaint plant, ac mae'r canllawiau'n dangos y camau y gall ysgolion eu cymryd i ddiogelu disgyblion. Mae Living Streets, yr elusen sy'n gyfrifol am ymgyrch genedlaethol cerdded i'r ysgol, yn cefnogi'r cynllun hwn.

Dywedodd Mary Bousted, cyd-ysgrifennydd cyffredinol yr NEU: "Mae aelodau'r NEU yn pryderu'n arw am effaith llygredd aer ar iechyd y plant maent yn eu haddysgu.

"All ysgolion ddim datrys y broblem hon ar eu pennau'u hunain, ond rydym wrth ein boddau'n cyhoeddi'r canllawiau hyn ar y cyd, a'r rheini'n dangos y camau ymarferol y gellir eu cymryd i ddiogelu plant."

Mae'r canllawiau – sydd i'w gweld yn **bit.ly/2TXRVOi** – yn rhoi sylw i'r materion canlynol:

- Ffeithiau o bwys am lygredd aer a'r effaith ar iechyd pobl.
- Sut i fonitro llygredd aer.
- Fframwaith i ddatblygu cynllun teithio unigol i ysgolion.
- Adnoddau i ymgysylltu â'r gymuned er mwyn annog newid ymddygiad.
- Cyngor am integreiddio addysg am lygredd aer yn y cwricwlwm cenedlaethol.
- Sut i wella iechyd disgyblion y mae llygredd aer yn effeithio arnynt.

Mae gan y BLF hefyd becyn cymorth ar gyfer hyrwyddwyr aer glân, a hwnnw'n cynnwys adnoddau a chyngor i roi hwb i ymgyrchoedd i fynd i'r afael â llygredd.

Ewch i **blf.org.uk/clean-air-champions-campaigns-toolkit**

Cyrsiau ar-lein yn parhau i aelodau

MAE dysgu'n ganolog i NEU Cymru, ac rydym yn ymfalchïo yn yr hyfforddiant rydym yn ei roi i weithwyr addysg proffesiynol, swyddogion lleol a chynrychiolwyr gweithle.

Ar hyn o bryd, oherwydd yr argyfwng iechyd, dim ond cyrsiau ar-lein fydd ar gael i aelodau o dan brosiect Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF).

Mae'r cyrsiau wedi bod yn hynod o boblogaidd ac oherwydd hyn, bydd rhagor yn cael eu trefnu dros y misoedd nesaf er mwyn ateb y galw. I weld y manylion, ewch i **bit.ly/2Jx1ZZR**

Ymhlith y cyrsiau ar-lein sydd eisoes wedi'u trefnu y mae cyrsiau Ymwybyddiaeth Ofalgar, Google Classroom a Google Package. Cadwch olwg ar eich e-bost i gael gwybodaeth am y cyfleoedd hyfforddi diweddaraf, hoffwch ni yn **facebook.com/neucymrutraining** neu dilynwch ni ar Twitter, **@neucymrutrain**